

GALWEDIGAETHOL



CBAC LEFEL 1 / 2 DYFARNIAD
GALWEDIGAETHOL MEWN
ADEILADU'R
AMGYLCHEDD ADEILEDIG

DYNODWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2014
l'w ddyfarnu o 2016

Fersiwn 4 Tachwedd 2022



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth'	8
	Eglurhad o reolau ailsefyll.	35
3	Datganiad ynghylch yr amrywiant posibl o sesiwn i sesiwn i sicrhau bod y safon sy'n ofynnol i gyrraedd gradd benodol yn aros yr un fath dros amser.	13
4	Adran 7 Dulliau Cofrestru diweddarau asesiad mewnol ac allanol.	35

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	
1.1 Teitlau a Chodau'r Cymhwyster	3
1.2 Rhesymeg	3
1.3 Dysgu Blaenorol a Chamau Dilyniant	4
2. Strwythur y Cymhwyster	5
3. Strwythur yr Uned	6
4. Asesu	
4.1 Asesiad allanol	7
4.2 Asesiad mewnol	8
4.3 Asesiad synoptig	11
4.4 Safoni	11
4.5 Hyfforddi Aseswyr Arweiniol	11
5. Darfarnu a Graddio	12
6. Unedau	14
7. Gweithdrefnau Cofrestru	36
8. Safoni Allanol	37
9. Dyfarnu a Chyflwyno Adroddiadau	39
10. Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig	40
11. Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau	41
12. Codau Dosbarthu	42
13. Y Cwricwlwm Ehangach	43
Atodiadau	
1 Mapio Sgiliau	44
2 Mapio Cynnwys y Cwricwlwm Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	46
3 Rhestr Termau	47

1 CYFLWYNIAD

1.1 Teitlau a Chodau'r Cymhwyster

CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (nid yw'r cymhwyster hwn ar gael mwyach i ganolfannau yn Lloegr).

Rhif y Cymhwyster a restrir ar Y Gofrestr yw: 601/0543/4.

Y Rhif Dynodi Cymwsterau Cymru a restrir ar QiW yw: C00/0573/2.

1.2 Rhesymeg

Mae Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig yn cynnig profiad dysgu sy'n rhoi ffocws dysgu i ddisgyblion 14 i 19 oed drwy ddysgu cymhwysol h.y. meithrin a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrrpasol a bennir o fewn cyd-destunau sector neu bwnc sy'n cynnwys llawer o nodweddion gwaith go iawn.

Mae pob cymhwyster yn cynnwys unedau ar wahân, ond mae'n caniatáu ar gyfer dysgu ac asesu synoptig. Mae gan bob uned ddiben cymhwysol sy'n gweithredu fel ffocws ar gyfer y dysgu a wneir fel rhan o'r uned. Defnyddir y diben cymhwysol i sicrhau bod y dysgu a wneir fel rhan o'r uned yn berthnasol ac yn bwrpasol. Fe'i defnyddir hefyd i ennyn brwdfrydedd y dysgwyr, i ymgysylltu â hwy a'u cymell i astudio gwyddoniaeth. Mae'r diben cymhwysol yn rhoi cyfle i ymgymryd â dysgu dilys sy'n gysylltiedig â gwaith, ond yn ogystal, bydd yn gofyn i'r dysgwyr ystyried sut y mae'r defnydd a wnânt o'r hyn a ddysgir a'r ffordd y caiff ei gymhwyso yn effeithio ar unigolion, cyflogwyr, cymdeithas a'r amgylchedd. Bydd y diben cymhwysol hefyd yn galluogi'r dysgwyr i ddysgu mewn modd sy'n golygu y byddant yn meithrin y canlynol:

- y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dysgu a datblygu annibynnol;
- amrywiaeth o sgiliau cyffredinol a throsglwyddadwy;
- y gallu i ddatrys problemau;
- sgiliau ymchwilio, datblygu a chyflwyno yn seiliedig ar brojectau;
- y gallu sylfaenol i weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill, mewn amgylchedd proffesiynol;
- y gallu i gymhwyso'r hyn a ddysgir o fewn cyd-destunau galwedigaethol.

Lluniwyd y cymwsterau yn seiliedig ar gysyniad o ddull dysgu 'cynllunio, gwneud, adolygu' lle y bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu, yn adolygu dysgu blaenorol er mwyn cynllunio gweithgareddau, yn cyflawni gweithgareddau ac yn adolygu'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu llawer o weithgareddau cysylltiedig â gwaith ym maes adeiladu'r amgylchedd adeiledig a hefyd yn darparu ar gyfer dysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan alluogi dysgwyr i gymhwyso ac ehangu eu dysgu. Fel y cyfryw, mae'r cymhwyster yn rhoi gwerthfawrogiad eang i'r dysgwyr o weithio ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a chyfluoedd ehangach ar gyfer camau dilyniant i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

1.3 Dysgu blaenorol a Chantau dilyniant

Nid oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol gyda'r fanyleb hon. Cynlluniwyd y cymhwyster er mwyn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yng Nghyfnod Allweddol 3, yn enwedig sgiliau'n ymwneud â llythrennedd, rhifedd, datrys problemau a menter.

Cynlluniwyd Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig er mwyn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu o'r hyn a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 4 a TGAU i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant.

Gallai cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, ynghyd â chymwysterau cyfatebol eraill, fel mathemateg a gwyddoniaeth, roi cyfleoedd i'r dysgwr astudio ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau gan gynnwys TAG, prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y canlynol:

- Project Estynedig Lefel 3;
- Cymwysterau Lefel 3 mewn adeiladu, fel Diplomâu Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig;
- Cymwysterau Lefel 2 mewn adeiladu, gan gynnwys meysydd arbenigol fel gwaith plymio, gosod brics a gwaith coed;
- Prentisiaethau adeiladu.

Yn yr un modd, mae'r sgiliau a'r ddealltwriaeth a feithrinir, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol (Cymru), Sgiliau Gweithredol, Sgiliau Allweddol a Sgiliau Personol, Dysgu a Meddwl (PLTS), yn berthnasol i unrhyw gymhwyster ar Lefel 3, boed yn gymhwyster 'Cyffredinol' neu'n gymhwyster 'Galwedigaethol'.

2 STRWYTHUR Y CYMHWYSTER

2.1 Teitlau Uned CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig

CBAC Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig			
Rhif yr Uned	Teitl yr Uned	Asesiad	ODA
9811	Diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu	Allanol	30
9812	Sgiliau adeiladu ymarferol	Mewnol	60
9813	Cynllunio projectau adeiladu	Mewnol	30

2.2 Orlau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Dyrannwyd nifer penodol o Orlau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) i bob uned yn y cymhwyster hwn. Dyma nifer yr oriau dysgu dan arweiniad y mae CBAC yn disgwyl i ganolfannau eu darparu i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni uned. Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr ODA a neilltuwyd i'r cymhwyster hwn yw 120 o oriau.

Yn ogystal â'r ODA, mae CBAC hefyd yn pennu cyfanswm yr oriau disgwyledig y bydd rhaid i ddysgwyr eu cyflawni er mwyn cwblhau'r cymhwyster: cyfeirir at hyn fel Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC). Mae'r gweithgareddau sy'n gallu cyfrannu at Gyfanswm Orlau Cymhwyso yn cynnwys ymchwil annibynnol a heb oruchwyliaeth, gwaith cwrs heb oruchwyliaeth, e-ddysgu ac e-asesu heb oruchwyliaeth a'r holl ddysgu dan arweiniad.

Cyfanswm yr Orlau Cymhwyso a neilltuwyd i'r cymhwyster hwn yw 160 o oriau.

3 STRWYTHUR YR UNED

Teitl yr uned

Mae teitl yr uned yn crynhoi cynnwys yr uned.

Oriau dysgu dan arweiniad (ODA)

Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cyfeirio'n benodol at yr oriau hynny lle y bydd tiwtor yn bresennol ac yn cyfrannu at y broses ddysgu. Mewn rhai sefydliadau, cyfeirir at yr elfen hon fel 'amser cyswllt'. Mae'r amser hwn yn cynnwys darlithoedd, cyfnodau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac amser astudio o dan oruchwyliaeth.

Nod a diben

Mae'r nod a'r diben yn darparu crynodeb cryno a chlir o'r uned. Mae hefyd yn nodi'r diben cymhwysol ar gyfer yr uned.

Cyflwyniad i'r uned

Caiff hwn ei ysgrifennu i'r dysgwr ac mae'n rhoi crynodeb o gynnwys yr uned. Mae'n pennu cyd-destun galwedigaethol yr uned ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn a ddysgir yn yr uned.

Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn datgan beth y dylai'r dysgwr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r dysgu yn yr uned

Meini prawf asesu

Mae'r meini prawf asesu yn dynodi'r safon y disgwylir i ddysgwr ei chyrraedd er mwyn dangos bod deilliannau dysgu'r uned honno wedi'u cyflawni.

Cynnwys yr uned

Mae'r cynnwys dangosol yn diffinio ehangder a dyfnder y dysgu ar gyfer pob maen prawf asesu. Disgwylir i'r holl gynnwys dangosol gael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu. Nid yw'n ofynnol asesu pob agwedd ar y cynnwys wrth asesu'r uned. Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd drwy'r dysgu at fanylion penodol y cyd-destun asesu.

Mewn rhai deilliannau dysgu rhoddir cynnwys yr uned fel enghraifft (e.e.). Dim ond fel cynnwys enghreifftiol y'i defnyddir a gall dysgwyr ddefnyddio unrhyw enghreifftiau a addysgir iddynt yn eu hasesiadau crynodedol.

Bandiau perfformiad

Darperir y rhain mewn unedau a asesir yn fewnol ac fe'u defnyddir i bennu'r radd grynodol ar gyfer yr uned. **Nid** yw bandiau perfformiad yn ychwanegu gofynion ychwanegol at y meini prawf asesu. Defnyddir bandiau perfformiad i bennu'r radd ar gyfer uned.

Asesu

Caiff Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig eu hasesu drwy asesiad mewnol dan reolaeth neu asesiad allanol. Mae'r adran hon o'r uned yn crynhoi'r gofynion asesu.

Canllawiau cyflwyno

Rhydd y canllawiau hyn syniadau i'r tiwtor ynghylch sut i gyflwyno'r unedau a asesir yn fewnol mewn lleoliad galwedigaethol sy'n gyson ag athroniaeth y cymhwyster a bwriad yr uned. Darperir o leiaf dri chyd-destun enghreifftiol ar gyfer pob uned. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi syniadau am leoliadau galwedigaethol ar gyfer yr uned ac yn awgrymu cysylltiadau posibl y gellid eu gwneud wrth gyflwyno'r dysgu.

4 ASESU

Caiff Dyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig eu hasesu gan ddefnyddio cyfuniad o asesiadau mewnol ac allanol.

4.1 Asesiad allanol

Caiff *Uned 1: Diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu* ei hasesu'n allanol. Nodir manylion yr asesiad allanol isod:

- Arholiad un awr;
- 60 o farciau;
- Asesiad ar-lein;
- Cwestiynau ymateb byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol;
- Bydd pob cwestiwn yn cynnwys senario datrys problemau cymhwysol;
- Bydd pob papur yn asesu'r holl ganlyniadau dysgu. Caiff meini prawf asesu eu samplu ym mhob cyfres;
- Ar gael ym mis Mehefin bob blwyddyn;
- Caniateir i ddysgwyr ailsefyll unwaith. Bydd y radd uchaf yn cyfrannu at y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster;
- Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad;
- Cânt eu graddio gan ddefnyddio Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2.

Dyfernir graddau ar sail y disgrifiadau perfformiad canlynol. Darperir disgrifiadau perfformiad er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyflawni y mae'r ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt ar gyfer asesiadau allanol yn debygol o fod wedi'u cyrraedd. Mae'n rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a ddynodir gan y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu'n ymarferol ar y graddau y bydd yr ymgeisydd wedi eu bodloni'n gyffredinol. Gall perfformiadau gwell mewn rhai agweddau ar yr arholiad wneud iawn am ddiffygion mewn agweddau eraill.

Llwyddiant Lefel 1

Mae'r dysgwyr yn cofio, yn dethol ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o iechyd, diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso gwybodaeth gyfyngedig er mwyn cymhwyso dealltwriaeth gyfyngedig i broblemau iechyd, diogelwch a diogeledd. Mae'r dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth ag eglurder cyfyngedig.

Llwyddiant Lefel 2

Mae'r dysgwyr yn cofio, yn dethol ac yn cyfleu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso rhywfaint o wybodaeth er mwyn cymhwyso rhywfaint o ddealltwriaeth berthnasol i ddatrys problemau iechyd, diogelwch a diogeledd. Mae'r dysgwyr yn defnyddio rhai sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol i gyflwyno gwybodaeth sy'n glir ac yn gywir ar y cyfan.

Teilyngdod Lefel 2

Mae'r dysgwyr yn cofio, yn dethol ac yn cyfleu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr o iechyd, diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso gwybodaeth er mwyn cymhwyso dealltwriaeth berthnasol i ddatrys amrywiaeth o broblemau iechyd, diogelwch a diogeledd. Mae'r dysgwyr yn defnyddio sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol i gyflwyno gwybodaeth sy'n glir ac yn gywir.

4.2 Asesiad mewnol

Caiff yr unedau canlynol eu hasesu'n fewnol:

- *Uned 2: Sgiliau adeiladu ymarferol*
- *Uned 3: Cynllunio projectau adeiladu*

Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth' CBAC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk). Mae'n rhaid i bob canolfan sicrhau bod asesiadau mewnol yn cael eu cynnal yn unol â'r rheolaethau hyn.

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol wrth asesu pob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol:

- Caiff unedau eu hasesu drwy asesiadau crynodedol dan reolaeth
- Darperir rheolaethau ar gyfer asesu pob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol mewn aseiniad enghreifftiol
- Mae'n rhaid i bob uned a gaiff ei hasesu'n fewnol gael ei hasesu'n annibynnol. Gall y dysgwyr gyflwyno darn o dystiolaeth sy'n cyfrannu at y meini prawf asesu ar gyfer mwy nag un uned. Mae hyn yn dderbyniol, ar yr amod y gellir ei phriodoli'n glir i faen prawf asesu penodedig a'i bod wedi'i chynhyrchu dan reolaeth briodol ar gyfer pob uned
- Darperir bandiau perfformiad ar gyfer Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos yn glir sut y mae'r dysgwr wedi cyrraedd y safon ar gyfer y graddau uwch.

Bydd tri cham asesu dan reolaeth:

- Pennu tasgau
- Cyflawni tasgau
- Marcio tasgau

Pennu tasgau;

Ar gyfer asesiadau mewnol, mae CBAC wedi llunio aseiniadau enghreifftiol. Fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r aseiniad o fewn paramedrau penodedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ganolfannau deilwra'r asesiad at anghenion lleol. Ysgrifennwyd yr aseiniad enghreifftiol er mwyn sicrhau bod y rheolaethau canlynol ar waith:

- Caiff pob uned ei hasesu drwy un aseiniad;
- Mae'n rhaid i bob aseiniad gynnwys briff sy'n nodi diben cymhwysol. Mae diben cymhwysol yn rheswm dros gwblhau'r tasgau a fyddai o fudd i gymdeithas, cymuned sefydliad neu gwmni. Ceir rhagor o fanylion yn y rhesymeg yn Adran 1.2;
- Gall yr aseiniad ddynodi nifer o dasgau ond mae'n rhaid i'r tasgau fod yn gydlynus h.y. dangos sut mae'r holl ofynion asesu yn cyfrannu at gyflawni diben cymhwysol yr aseiniad;
- Mae'n rhaid i'r aseiniad roi'r cyfle i bob dysgwr ymdrin â'r holl feini prawf asesu a'r holl ofynion ar gyfer y bandiau perfformiad;
- Mae'n rhaid i'r aseiniad nodi'r mathau derbyniol o dystiolaeth. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r mathau hynny a nodwyd yn yr aseiniad enghreifftiol;
- Lle y bydd canolfan wedi addasu'r aseiniad enghreifftiol, mae'n rhaid darparu tystiolaeth o waith sicrhau ansawdd o ran ei addasrwydd at y diben. Darperir samplau o ddogfennaeth ar gyfer y gweithgaredd hwn gyda phob aseiniad enghreifftiol.

Cyflawni tasgau;

Caiff pum maes cyflawni tasgau eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac ailgyflwyno.

Amser

Bydd pob aseiniad enghreifftiol yn dynodi cyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer yr asesiad crynodedol. Gall canolfannau neilltuo'r amser hwnnw i bob tasg yn ôl eu disgrisiwn.

Adnoddau

Gall yr aseswr bennu pa adnoddau y dylid eu darparu i bob dysgwr er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad teg a dily. Lle y mae'n rhaid rhoi rheolaethau penodol ar waith o ran adnoddau, fe'u nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

Goruchwyliaeth

Mae'n rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwyllo fel arfer gan aseswr wrth gwblhau tasgau aseiniad dan reolaeth. Bydd aseiniadau enghreifftiol yn dynodi lle nad oes angen goruchwyliaeth. Mae'n rhaid i ganolfannau roi systemau ar waith er mwyn sicrhau na all dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth y maent wedi bod yn ei datblygu y tu allan i weithgareddau a oruchwylir.

Dilysu

Mae trefniadau goruchwyllo ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer asesiad crynodedol. Ni ddysgwylir i aseswyr ddarparu mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod cyfnod yr asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Gall aseswyr ddarparu canllawiau ar ofynion y dasg ac atgoffa dysgwyr am y bandiau perfformiad a sut y gellir eu dehongli. Mae'n rhaid i aseswyr ymyrryd os gwelir bod risg i iechyd a diogelwch.

Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad.

Mae'n rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad i gadarnhau mai eu gwaith hwy yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod.

Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn yr aseiniadau enghreifftiol

Cydweithio

Bydd yr aseiniad enghreifftiol yn nodi'r canlynol:

- P'un a oes rhaid ymgymryd â gwaith grŵp
- P'un a yw gwaith grŵp wedi'i wahardd
- P'un a all canolfannau ddewis cwblhau tasgau drwy waith grŵp.

Lle yr ymgwymerir â gwaith grŵp, mae'n rhaid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Dylai tasgau roi cyfle i bob aelod o'r grŵp gael mynediad llawn i'r holl fandiau perfformiad ar gyfer yr holl feini prawf asesu
- Mae'n **rhaid** i ddysgwyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o unrhyw ganlyniad sy'n deillio o'r dasg
- Rhaid sicrhau y gellir priodoli'r dystiolaeth yn glir i bob aelod unigol o'r grŵp
- Mae'n rhaid nodi cyfraniadau unigol yn glir a'u datgan ar y daflen ddilysu ategol y mae'n rhaid i'r athro a'r ymgeisydd ei llofnodi
- Mae'n rhaid i'r broses o asesu'r unigolyn fod yn seiliedig ar y cyfraniad unigol i'r dystiolaeth a gyflwynwyd
- Ni ddylai perfformiad gwael gan aelodau eraill o'r grŵp effeithio ar gyflawniad dysgwyr
- Ni ddylai perfformiad aelodau eraill o'r grŵp fod o fudd i gyflawniad dysgwyr.

Ailsefyll

Gall dysgwyr ailymgeisio am unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol. Mae'n rhaid i'r dysgwr gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Caiff dysgwyr un cyfle i ailsefyll pob uned a gaiff ei hasesu.

Lle y bydd dysgwr unigol sydd wedi cyflwyno gwaith grŵp i'w asesu yn flaenorol yn awyddus i ailsefyll uned a gaiff ei hasesu'n fewnol, mae'n **rhaid** dewis un o'r opsiynau canlynol:

- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn yr un grŵp
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn grŵp newydd
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith gydag ymgeiswyr na chânt eu hasesu
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd greu darn unigol o waith.

Bydd yr un lefelau rheolaeth ar gyfer gwaith grŵp, fel y'u hamlinellir uchod, yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll.

Marcio tasgau;

Mae'n rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y meini prawf asesu a'r datganiadau bandiau perfformiad a nodir ym manyleb pob uned. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio â'r gofynion dan reolaeth a nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut y mae'n berthnasol i'r meini prawf asesu a gofynion y bandiau perfformiad.

Mae'n rhaid nodi tystiolaeth o berfformiad, er enghraifft, rhoi cyflwyniad, ar gofnodion arsylwi. Bydd cofnodion arsylwi yn cynnwys disgrifiad o berfformiad y dysgwr yn ogystal â datganiad crynodedig ar ansawdd y perfformiad hwnnw. Lle y bydd rhywun heblaw aseswr yn arsylwi'r perfformiad, mae'n rhaid i'r 'tyst' gwblhau datganiad tyst. Bydd angen i aseswyr ddilysu'r datganiad naill ai drwy graffu ar y dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr a/neu'r tyst. Os caiff y datganiad ei ddilysu, gall gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer yr asesiad. Bydd angen cynnwys tystiolaeth ddilysu hefyd. Bydd pob aseiniad enghreifftiol sy'n caniatáu tystiolaeth o berfformiad yn cynnwys sampl o gofnod arsylwi a datganiad tyst.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai fod gan aseswr yr arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodol. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Cynhelir yr asesiad o dan yr amodau dan reolaeth a nodir
- Maent yn deall gofynion y deilliannau dysgu, y meini prawf asesu a'r datganiadau bandiau perfformiad cyn dechrau'r asesiad dan reolaeth
- Mae'r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys
- Mae'r penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- Mae'r dystiolaeth yn cael ei hanodi yn briodol
- Mae'r cofnodion arsylwi yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod modd cadarnhau penderfyniadau yn wrthrychol
- Dim ond yn erbyn y datganiadau bandiau perfformiad y caiff dyfarniadau eu gwneud.

4.3 Asesiad synoptig

Asesiad synoptig yw

'a form of assessment which requires a candidate to demonstrate that s/he can identify and use effectively in an integrated way an appropriate selection of techniques, concepts, theories and knowledge from across the whole vocational area, which are relevant to a key task'

Qualifications for 14 -16 year olds and Performance Tables: Technical guidance for awarding organisations' Yr Adran Addysg tud 7

Cynlluniwyd pob uned yn Nyfarniadau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddeall sut y defnyddir gwyddoniaeth i ddatrys problemau o fewn tasgau pwrpasol cysylltiedig gwirioneddol. Bydd dysgwyr yn dewis ac yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd ganddynt wrth gwblhau'r tasgau hyn. Yn ogystal, mae *Uned 3: Cynllunio projectau adeiladu* yn galluogi'r dysgwyr i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn unedau 1 a 2 mewn cyd-destunau gwahanol er mwyn cynnig datrysiadau i gynllunio projectau adeiladu.

4.4 Safoni

Disgwylir i ganolfannau safoni penderfyniadau asesu mewnol. Dyma'r broses a ddefnyddir gan ganolfannau er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwr ei farnu yn ôl yr un safon ar draws gwahanol aseswyr, grwpiau addysgu ac o flwyddyn i flwyddyn. Dylid cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau safoni gyda thystiolaeth y dysgwyr.

Lle y bydd mwy nag un aseswr yn ymwneud â'r broses, rhaid i'r ganolfan benodi aseswr arweiniol. Rôl yr Aseswr Arweiniol yw:

- Dogfennu pob gweithgaredd
- Sicrhau bod yr aseiniad a gyflwynir i'r dysgwyr yn addas at y diben a'i fod yn cydymffurfio â'r holl reolaethau
- Sicrhau bod gan bob aseswr ddogfennaeth briodol i ategu penderfyniadau asesu teg a dilys
- Sicrhau bod pob gweithgaredd asesu yn cydymffurfio â'r rheolaethau cyflawni tasgau ar gyfer yr uned
- Samplu barnau asesu ar adegau priodol er mwyn sicrhau bod y bandiau perfformiad yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson
- Rhoi adborth i'r aseswyr
- Rhoi cymorth i'r aseswyr o ran dehongli gofynion bandiau perfformiad.

4.5 Hyfforddi Aseswyr Arweiniol

Bydd CBAC yn rhoi hyfforddiant i Aseswyr Arweiniol ac aseswyr ym mhob blwyddyn academiaidd. Bydd deunydd cymorth i aseswyr, gan gynnwys samplau o ddogfennaeth, hefyd ar gael i aseswyr ac Aseswyr Arweiniol.

5 DYFARNU A GRADDIO

Mae cyflawni'r uned yn seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r meini prawf asesu. Gellir dyfarnu gradd grynodol o Lwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 neu Rhagoriaeth Lefel 2 ar gyfer unedau.

Dyfarnu gradd grynodol ar gyfer yr uned

Unedau a gaiff eu Hasesu'n Fewnol

Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad i alluogi dysgwyr i ddangos eu gallu yn erbyn y meini prawf asesu. Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer cyflawni graddau uwch.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 1** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr fodloni holl ofynion sylfaenol yr holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 1.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr fodloni holl ofynion sylfaenol yr holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 2.

Er mwyn cael gradd **Teilyngdod Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr hefyd fodloni holl ofynion sylfaenol Teilyngdod, fel y'u nodir ym mand perfformiad Teilyngdod Lefel 2.

Er mwyn cael gradd **Rhagoriaeth Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ddysgwr hefyd fodloni'r holl ofynion sylfaenol fel y'u nodir ym mandiau perfformiad Rhagoriaeth Lefel 2.

Unedau a gaiff eu Hasesu'n Allanol

Caiff graddau asesuadau allanol eu dyfarnu gan CBAC. Defnyddir y datganiadau bandiau perfformiad hyn a ddarperir yn adran 4.1 i bennu ffiniau'r graddau ar gyfer pob cyfres o asesuadau.

Grid Asesu

Deilliannau Dysgu	Meini Prawf Asesu	Marciau	%
DD1 Gwybod beth yw gofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladu	MPA1.1 Crynhoi cyfrifoldebau deddfwriaeth iechyd a diogelwch	12-18	20-30
	MPA1.2 Nodi'r arwyddion diogelwch a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu		
	MPA1.3 Nodi diffoddwyr tân a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd gwahanol		
	MPA1.4 Disgrifio rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch		
DD2 Deall y risgiau i iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd	MPA2.1 Nodi'r peryglon i iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd	12-18	20-30
	MPA2.2 Disgrifio effeithiau posibl peryglon mewn gwahanol sefyllfaoedd		
	MPA2.3 Esbonio'r risg o niwed mewn dwy sefyllfa wahanol		
DD3 Deall sut i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch	MPA3.1 Esbonio mesurau rheoli iechyd a diogelwch presennol mewn gwahanol sefyllfaoedd	18-24	30-40
	MPA3.2 Argymhell mesurau rheoli iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd		
DD4 Gwybod sut y caiff risgiau i ddiogeledd eu lleihau ym maes adeiladu	MPA4.1 Nodi risgiau i ddiogeledd ym maes adeiladu mewn gwahanol sefyllfaoedd	6-12	10-20
	MPA4.2 Disgrifio mesurau a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu i leihau'r risg i ddiogeledd		
CYFANSWM		60	100%

Penderfynir ar ffiniau graddau ar gyfer unedau allanol Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC bob blwyddyn drwy broses ddyfarnu a chânt eu cyhoeddi ar wefan CBAC ar yr un pryd â'r canlyniadau. Mae'r ffiniau hyn yn nodi nifer isaf y marciau sydd eu hangen i ennill pob gradd. Mewn unrhyw arholiad, gall lefel yr her amrywio o sesiwn i sesiwn. O ganlyniad, gall ffiniau amrywio o sesiwn i sesiwn i sicrhau bod y safon sy'n ofynnol i gyrraedd gradd benodol yn aros yr un fath dros amser.

Graddio'r cymhwyster

Dyfernir gradd Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2 neu Ragoriaeth Lefel 2* i bob Dyfarniad Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig. Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail cyfuno'r graddau a gyflawnir ar gyfer yr unedau. Caiff pob gradd a gyflawnir gan ddysgwyr ar gyfer uned ei throsi'n farc uned at ddiben dyfarnu'r cymhwyster. Dyfernir gradd i'r ymgeiswyr a fydd yn cyflawni'r marciau uned gofynnol ar gyfer y cymhwyster.

Dangosir y pwyntiau sydd ar gael yn y tabl canlynol:

Wedyn caiff gradd y cymhwyster ei chyfrifo drwy gymharu sgôr pwyntiau dysgwyr â'r tabl graddau cymhwyster isod.

Uned	Pwyntiau fesul uned			
	Lefel 1	Llwyddiant Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Rhagoriaeth Lefel 2
Uned 9811	1	2	3	4
Uned 9812	2	4	6	8
Uned 9813	1	2	3	4

Cymhwyster	Cyfanswm pwyntiau gradd	
Dyfarniad Lefel 1 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig	Llwyddiant	4-6
Dyfarniad Lefel 2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig	Llwyddiant	7-10
	Teilyngdod	11-13
	Rhagoriaeth	14-15
	Rhagoriaeth*	16

Dylai canolfannau nodi bod y tablau hyn wedi'u cyhoeddi i roi arweiniad i ganolfannau. Gall y gofynion i ymgeiswyr gyflawni pob gradd amrywio rhywfaint rhwng sesiynau. Bydd y gofynion hyn, gan gynnwys y tablau pwyntiau, yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefannau CBAC ac Eduqas ar yr un diwrnod ag y cyhoeddir canlyniadau i ymgeiswyr.

Dyfernir gradd Ddi-ddosbarth i ddysgwyr nad ydynt yn cyflawni isafswm y pwyntiau sydd eu hangen ar gyfer Llwyddiant Lefel 1.

6 UNEDAU

Uned 1

Diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu

Cod cofrestriad uned CBAC 9811

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a diben

Cyflawnir gweithgareddau adeiladu mewn llawer o gyd-destunau gwahanol. Drwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i allu cynllunio sut i leihau'r risg i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eraill mewn cyd-destunau gwahanol.

Cyflwyniad i'r uned

A yw gwaith adeiladu yn beryglus? A all unrhyw gyfarpar ac offer a ddefnyddir gennyf beri niwed? Mae rhywfaint o'r cyfarpar rwy'n ei ddefnyddio yn ddrud. Sut gallaf ei gadw'n ddiogel? Sut mae sicrhau fy mod yn ddiogel wrth weithio gyda chyfarpar trydanol a mecanyddol? A oes unrhyw ganllawiau y gallaf eu dilyn i sicrhau fy mod yn ddiogel wrth gyflawni tasgau? Ar bwy y gallaf ddibynnu i'm cadw'n ddiogel? Beth y dylwn ei wneud gyda defnydd gwastraff? A ddylwn ei roi mewn sgip neu fynd ag ef i'r domen? A ddylwn ystyried pwy sydd â hawl gweld dyluniadau a manylebau rwy'n eu defnyddio? Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau pwysig i unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu?

Mae'r broses adeiladu yn digwydd mewn sawl man. Gallai gosodwyr brics fod yn adeiladu wal gardd neu wal gwaith blocs ar ben bloc tŵr newydd. Gallai plymiwr fod yn gosod ystafell ymolchi newydd neu'n gosod pibellau ar safle petrocemegol. Gallai plastrwyr fod yn gweithio ar waliau ag asbestos gynt gan olygu bod angen iddynt ystyried sut i waredu gwastraff. Gallai gosodwr dur fod yn gweithio ar sylfeini neu ar frig maes parcio aml-lawr. Gallai tŵr gael darluniadau adeiladu sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol y mae'n rhaid ei chadw'n ddiogel. Mae pobl fasnach, arolygwyr, goruchwylwyr safle, penseiri a rheolwyr project i gyd yn enghreifftiau o'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu a allai fod yn gweithio lle cynhelir prosesau adeiladu. Efallai y caiff rhai wybodaeth sy'n fasnachol sensitif fel tendrau neu ddyluniadau adeiladu. Efallai y bydd rhai yn gweithio mewn amgylcheddau â materion diogeledd fel cyfraddau trosedd uchel. Gall cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd hefyd fod yn defnyddio'r amgylcheddau hyn ac yn gweithio ynddynt. Bydd angen i chi feddwl am eich amgylchedd, y cyfarpar a'r defnyddiau rydych yn eu defnyddio, a sut y cânt eu defnyddio a'u gwaredu er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch cydweithwyr yn aros yn ddiogel.

Gwybod am beryglon posibl prosesau adeiladu yw man cychwyn gweithio mewn ffordd ddiogel. Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu sut i chwilio am beryglon i ddiogelwch a diogeledd a'u nodi. Byddwch yn dysgu sut i fesur risg y peryglon hyn fel eich bod yn gallu cynllunio ffyrdd o gyfyngu ar y risg a gweithio mewn ffordd ddiogel, beth bynnag fo'ch rôl neu'r lleoliad.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
DD1 Gwybod beth yw gofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladu	MPA1.1 Crynhoi cyfrifoldebau deddfwriaeth iechyd a diogelwch	Cyfrifoldebau • Cyflogeion • Cyflogwyr Deddfwriaeth • Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 • Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR) • Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH) • Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER) • Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw 1992 • Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992 (PPER) • Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 • Rheoliadau Rheoli Asbestos
	MPA1.2 Nodi'r arwyddion diogelwch a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu	Arwyddion diogelwch • Ystyr codau lliw • Ystyr siapiau arwyddion • Ystyr arwyddion ○ Dim fflamau noeth ○ Dim cerddwyr ○ Rhaid gwisgo diogelwch pen ○ Rhaid gwisgo diogelwch traed ○ Risg o dân ○ Risg o berygl ○ Cymorth cyntaf
	MPA1.3 Nodi diffoddwyr tân a ddefnyddir mewn gwahanol sefyllfaoedd	Diffoddwyr tân • Dŵr • Ewyn • CO₂ • Powdr sych

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
DD2 Deall y risgiau i iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd		• Hylifau anweddu • Cemegyn gwlyb • Blanced tân
	MPA1.4 Disgrifio rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Rôl • Pryd y torrir deddfwriaeth • Darparu cyngor a chymorth
	MPA2.1 Nodi'r peryglon i iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd	Sefyllfaoedd • Ar y safle – tanadeiledd, ardoladeiledd • Oddi ar y safle – gweithdy, swyddfa, teithio rhwng safleoedd
	MPA2.2 Disgrifio effeithiau posibl peryglon mewn gwahanol sefyllfaoedd	Effeithiau • Ffisegol • Seicolegol • Ariannol • Amgylcheddol Pwy yr effeithir arnynt • Chi'ch hun • Eraill sy'n gweithio yn yr ardal • Cyflogwr • Cymuned leol • Amgylchedd • Defnyddwyr
DD3 Deall sut i leihau risgiau i iechyd a diogelwch	MPA2.3 Esbonio'r risg o niwed mewn dwy sefyllfa wahanol	Risg • Tebygolrwydd • Difrifoldeb • Sut y caiff risk ei mesur
	MPA3.1 Esbonio mesurau rheoli iechyd a diogelwch presennol mewn gwahanol sefyllfaoedd	Mesurau rheoli • Datganiadau o ddull • Systemau gwaith diogel • Trwyddedau gwaith • Unigolion cymwys • Cyfarpar diogelu personol

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
	MPA3.2 Argymhell mesurau rheoli iechyd a diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd	Sefyllfaoedd • Lleoliadau • Newidiadau mewn arferion gwaith • Cyfarpar • Graddfa Cyfrifoldebau unigol/busnes
DD4 Gwybod sut y caiff risgiau i ddiogeledd eu lleihau ym maes adeiladu	MPA4.1 Nodi risgiau i ddiogeledd ym maes adeiladu mewn gwahanol sefyllfaoedd	Diogeledd • Offer a chyfarpar • Eiddo personol • Gwybodaeth sensitif
	MPA4.2 Disgrifio mesurau a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu i leihau'r risg i ddiogeledd	Mesurau • A ddefnyddir gan gyflogeion • A ddefnyddir gan gyflogwyr

Asesiad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol. Bydd yr asesiad allanol ar gael ym mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'r fanyleb ar gyfer yr asesiad allanol fel a ganlyn:

Hyd: 1 Awr

Marciau: 60

Pwysoliadau Deilliannau Dysgu

	DD1	DD2	DD3	DD4
%	20-30	20-30	30-40	10-20
Marciau	12-18	12-18	18-24	6-12

Graddau: Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2

Fformat: E-asesiad ar y sgrin. Cwestiynau ymateb byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Bydd angen i'r dysgwyr ddefnyddio deunydd ysgogi er mwyn ateb cwestiynau.

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- darparu profiad gwaith yn y gweithle. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i weithio gyda mesurau sydd ar waith i leihau risgiau i iechyd a diogelwch
- trefnu ymweliadau â gweithleoedd mewn gwahanol leoliadau lle gall dysgwyr arsylwi arferion a nodi peryglon posibl. Trafod â chynrychiolwyr cwmni sut maent yn lleihau'r risg i iechyd a diogelwch
- trefnu sgysiau gan siaradwyr gwadd megis swyddogion iechyd a diogelwch neu arolygwyr iechyd a diogelwch
- cyflawni gweithgareddau yn seiliedig ar senario gwaith

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella dealltwriaeth y dysgwyr o bwysigrwydd galwedigaethol iechyd a diogelwch mewn ymchwiliadau gwyddonol.

Enghraifft 1

Gallai cynrychiolydd o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ddangos ffotograffau neu glipiau fideo i'r dysgwyr ar weithrediad ac ymchwiliadau'r sefydliad. Ynghyd â chydymweliad gan Contractwr Adeiladu, gellid tynnu sylw at leoliad meysydd allweddol o beryglon posibl a sut mae'r ddau barti yn gweithio tuag at yr un nod sef creu amgylchedd gwaith diogel. Gallai'r cynrychiolwyr weithio gyda'r dysgwyr i drafod risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phob perygl a ffyrdd y gellid lleihau risg gan edrych ar y ddeddfwriaeth a mesurau ymarferol sydd ynghlwm wrth sicrhau cydymffuriaeth. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu posteri, deunydd ymgyrchu a thafenni gwybodaeth yn ymwneud â sut y gall y peryglon a nodwyd gael eu cyfleu i'r gweithlu a sut y gall risgiau gael eu lleihau. Gallai'r rhain gael eu cymharu â hysbysiadau a thafenni gwybodaeth wedi'u cynhyrchu gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a Chontractwyr Adeiladu.

Enghraifft 2

Gallai cynrychiolwyr o gwmni proffesiynol roi asesiadau risg syml go iawn i'r dysgwyr eu cwblhau ar eu rhan. Gallai'r asesiad risg gael ei gwblhau ar safle byw gyda'r cwmni yn gosod gwe-gamera yn dangos y safle lle y cynhelir yr asesiad. Gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau er mwyn trafod y peryglon a'r risgiau posibl, yn seiliedig ar yr hyn y maent yn ei arsylwi. Yna gallai'r dysgwyr gyfrannu at y gwaith o gwblhau asesiad risg ar gyfer ymweliad oddi ar y safle. Gallai'r dysgwyr e-bostio eu hasesiadau risg at gynrychiolwyr y cwmni a allai ddarparu adborth ar unrhyw beryglon nas nodwyd. Gallai'r dysgwyr gwblhau'r asesiadau ar y safle ac adolygu eu hasesiadau risg eu hunain o ganlyniad i'w profiad.

Enghraifft 3

Gallai cyflenwr/gweithdy lleol (asiedydd, clustogydd, masnachwr adeiladu) roi blogiau wythnosol i'r dysgwyr o'u hasesiadau, boed yn trafod â llaw, asesiadau risg COSHH ac ati yn tynnu sylw at beryglon a risgiau posibl. Gallai'r dysgwyr ychwanegu sylwadau i'r blog yn esbonio mesurau y gellid eu cymryd i leihau risg.

Gwneud Cysylltiadau

Mae'r enghraifftiau o sefydliadau a allai ddarparu cymorth yn cynnwys:

- Contractwr, Dylunwyr, Penseiri
- Awdurdod Lleol
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Cyrff Proffesiynol (Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sgiliau Adeiladu, Darparwyr gyrfaedd, RIBA)
- Cadwyn Gyflenwi Adeiladu

Uned 2

Sgiliau adeiladu ymarferol

Cod cofrestriad uned CBAC 9812

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Nod a diben

Drwy'r uned hon bydd dysgwyr yn gallu dehongli gwybodaeth dechnegol er mwyn cynllunio'r gwaith o adnewyddu adeilad, gan ystyried materion iechyd a diogelwch. Byddant yn defnyddio sgiliau a thechnegau priodol er mwyn gwneud y gwaith adnewyddu.

Cyflwyniad i'r uned

Sut mae gosod drws? Oes modd sgimio bwrdd plastr? Sut mae defnyddio paent sglein ar ddrws panel? Pa adnoddau sydd eu hangen i adeiladu wal? Sut mae cynllunio'r hyn sydd angen ei wneud? A fyddaf yn ddiogel? Sut mae cadw cyfarpar yn ddiogel? Sut mae gwybod bod yr hyn a wnaed yn ddigon da?

Bydd unrhyw broject adnewyddu yn gofyn am bobl â sgiliau gwahanol. Bydd ystafell ymolchi newydd yn cynnwys gwaith plymio, teilsio, plastro ac addurno. Bydd angen gosodwyr brics, seiri a chynllunwyr mewnol i godi estyniad. Pa sgil bynnag a ddefnyddir, mae dewis a defnyddio'r offer, defnyddiau a chyfarpar cywir mewn ffordd ddiogel yn allweddol i'r broses. Mae pob project yn cynnwys darluniadau a/neu fanylebau sy'n defnyddio symbolau a therminoleg safonol ryngwladol y mae'n rhaid eu dehongli cyn y gellir adeiladu rhywbeth. Ar sail y wybodaeth dechnegol hon, rhaid gwneud cyfrifiadau ar gyfer adnoddau cyn i'r broses adeiladu ddechrau. Drwy gydol yr uned hon byddwch yn dysgu sut i ddehongli gwybodaeth dechnegol er mwyn nodi'r defnyddiau, offer a chyfarpar sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu. Byddwch yn meithrin amrywiaeth o sgiliau adeiladu a all gael eu defnyddio yn ystod gwaith adeiladu, gan sicrhau eich bod yn ystyried unrhyw faterion iechyd a diogelwch.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
DD1 Gallu dehongli gwybodaeth dechnegol	MPA1.1 Dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol	Dehongli • Symbolau • Confensiynau • Terminoleg Ffynonellau gwybodaeth • Manylebau • Rheoliadau adeiladu • Darluniadau • Briffiau dylunio
	MPA1.2 Cynllunio dilyniant gwaith er mwyn bodloni gofynion ffynonellau gwybodaeth	Ffynonellau gwybodaeth • Manylebau • Darluniadau • Briffiau dylunio • Rheoliadau adeiladu • Cyfathrebu ar lafar Cynllunio • Amserlenni • Trefn • Iechyd a Diogelwch
DD2 Gwybod beth yw gofynion paratoi tasgau adeiladu	MPA2.1 Nodi adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu	Adnoddau • Offer • Cyfarpar • PPE • Defnyddiau'n seiliedig ar ○ Nodweddion ○ Ansawdd ○ Cynaliadwyedd ○ Cyfyngiadau

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
	MPA2.2 Cyfrifo ’r defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu	Cyfrifo - Defnyddiau sydd eu hangen - Cyfaint - Arwynebedd - Perimedr - Amser - Cymhareb - Costau
	MPA2.3 Pennu meini prawf llwyddiant ar gyfer cwblhau tasgau adeiladu	Meini prawf llwyddiant - Lefel goddefiant - Amserlenni - Ansawdd
	MPA2.4 Paratoi ar gyfer tasgau adeiladu	Paratoi Dylai canolfannau addysgu’r cynnwys sy’n berthnasol i’r technegau a ddewiswyd yn MPA3.1 - Gwirio defnyddiau am ddiffygion - Trefnu defnyddiau - Mesur defnyddiau - Marcio defnyddiau - Torri defnyddiau - Gosod defnyddiau - Defnyddiau bondio sych - Defnyddiau mortar cymysg

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
DD3 Gallu defnyddio prosesau adeiladu i gwblhau tasgau adeiladu	MPA3.1 Defnyddio technegau i gwblhau tasgau adeiladu	Dylai dysgwyr ddysgu sgiliau sy'n ymwneud ag o leiaf dair o'r technegau canlynol. Mae'r cynnwys yn rhoi enghreifftiau o sgiliau ar gyfer pob techneg y gellid eu haddysgu. Dylai sgiliau ymwneud ag adnewyddu eiddo. • Tecstilau e.e. pelmetau, llenni, gorchuddiadau wal • Pren e.e. gosod drws, gwneud ffrâm, gosod bwrdd sgyrtin, creu wal pyst pren • Bric e.e. defnyddio clymau cysylltau waliau, torri brics, creu wal o dan fetr o uchder, bond brics ar eu hyd • Plastr e.e. gosod bwrdd plastr, sgim • Addurno e.e. gosod emwlsiwn ar wyneb, defnyddio paent sglein ar ddrws panel, papuro cornel fewnol neu o amgylch switsh • Teilsio e.e. llawr a wal, atgyweirio darn bach • Trydanol e.e. goleuadau, ychwanegu soced newydd • Gwaith plymio e.e. gwastraff a thapiau i sinc • Sgiliau treftadaeth e.e. wal cerrig sych, to (newid defnydd neu ran ohono) Dylai'r technegau hyn gael eu haddysgu mewn perthynas â'r technegau a ddewisir o blith yr uchod • Gwaredu defnyddiau'n ddiogel • Ymwybyddiaeth o arferion lechyd a Diogelwch a sut i'w rhoi ar waith
	MPA3.2 Rhoi arferion iechyd a diogelwch ar waith wrth gwblhau tasgau adeiladu	Iechyd a Diogelwch • Glendid a diogelwch y man gwaith • Arferion gwaith diogel • Defnydd o PPE cywir
	MPA3.3 Gwerthuso ansawdd tasgau adeiladu	Gwerthuso • Hunanwerthuso • Yn erbyn goddefiant penodol • Yn erbyn meini prawf llwyddiant

Deiliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad			
		Llwyddiant Lefel 1	Llwyddiant Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Rhagoriaeth Lefel 2
DD1 Gallu dehongli gwybodaeth dechnegol	MPA1.1 Dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol	Dehongli amrywiaeth gyfyngedig o wybodaeth dechnegol. Tystiolaeth yn dueddol o ganolbwyntio ar un math o ffynhonnell	Dehongli amrywiaeth o wybodaeth dechnegol o fwy nag un math o ffynhonnell. Gall fod rhai anghywirdebau neu hepgoriadau	Dehongli amrywiaeth o wybodaeth dechnegol yn gywir o fwy nag un math o ffynhonnell. Gall fod rhai hepgoriadau	Dehongli'n gywir wybodaeth dechnegol ofynnol o fwy nag un math o ffynhonnell
	MPA1.2 Cynllunio trefn gwaith er mwyn bodloni gofynion ffynonellau gwybodaeth	Cynllunio trefn amlinellol gwaith. Gall fod problemau gyda'r drefn a gynigir	Cynllunio trefn gwaith er mwyn bodloni gofynion. Proses resymegol ydyw'n bennaf, gan ddangos gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn. Mae'r amserlenni yn briodol ar y cyfan		
DD2 Gwybod beth yw gofynion paratoi tasgau adeiladu	MPA2.1 Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu	Nodi'r adnoddau allweddol sydd eu hangen i gwblhau tasg adeiladu	Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu. Gall fod rhai hepgoriadau neu ddifffyg manylder	Yn nodi'n gywir ac yn fanwl yr adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu	
	MPA2.2 Cyfrifo defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu	Cyfrifo'r defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu. Gall y cyfansymiau a gyfrifir gynnwys gwallau er bod y broses gywir wedi'i defnyddio. Gall fod hepgoriadau wrth ddefnyddio confensiynau safonol a rhywfaint o'r defnyddiau gofynnol	Cyfrifo'r defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu. Gall fod rhai gwallau o ran cyfansymiau, lefel y cywirdeb a gofnodir neu'r confensiynau safonol a ddefnyddir. Mae'r prosesau a ddilynwyd wrth gyfrifo yn gywir	Cyfrifo â lefel briodol o gywirdeb y defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu. Gall fod rhai gwallau yn y cyfansymiau neu'r confensiynau safonol a ddefnyddir, ond prin yw'r effaith a gaiff y rhain ar ofynion cyffredinol. Mae'r prosesau a ddilynwyd wrth gyfrifo yn gywir	Yn cyfrifo'n briodol y defnyddiau sydd eu hangen i gwblhau tasgau penodol gan ddefnyddio confensiynau safonol
	MPA2.3 Pennu meini prawf llwyddiant ar gyfer cwblhau tasgau adeiladu	Nodir y meini prawf llwyddiant a amlinellir yn y briff	Caiff meini prawf llwyddiant ar gyfer cwblhau tasgau adeiladu eu nodi o wybodaeth benodol ac ymhlyg a roddir yn y briff		

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Llwyddiant Lefel 1	Llwyddiant Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Rhagoriaeth Lefel 2
	MPA2.4 Paratoi ar gyfer tasgau adeiladu	Caiff amrywiaeth gyfyngedig o dasgau paratoi eu cwblhau'n effeithiol. Roedd angen arweiniad a chyfarwyddyd ar y dysgwr i gyflawni tasgau	Caiff amrywiaeth o dasgau paratoi eu cwblhau'n effeithiol mewn trefn resymegol ar y cyfan. Gall fod rhai gwallau a hepgoriadau. Cyflawnir tasgau gydag arweiniad a chyfarwyddyd cyfyngedig	Caiff amrywiaeth o dasgau paratoi eu cwblhau'n effeithiol mewn trefn resymegol. Cwblheir y tasgau yn annibynnol	
DD3 Gallu defnyddio prosesau adeiladu i gwblhau tasgau adeiladu	MPA3.1 Defnyddio technegau i gwblhau tasgau adeiladu	Defnyddir technegau'n effeithiol i gwblhau amrywiaeth gyfyngedig o dasgau. Mae deilliannau tasgau o fewn lefelau goddefiant derbyniol o ganlyniad i arweiniad ac ymyriadau	Defnyddir amrywiaeth o dechnegau'n effeithiol i gwblhau'r rhan fwyaf o dasgau penodol. Mae deilliannau o fewn lefelau goddefiant derbyniol, a gyflawnir gydag arweiniad neu ymyriad cyfyngedig	Defnyddir amrywiaeth o dechnegau'n effeithiol i gwblhau tasgau penodol. Mae deilliannau o fewn lefelau goddefiant ar y cyfan ac maent i gyd o fewn lefelau goddefiant derbyniol. Cyflawnir deilliannau ag arweiniad cyfyngedig.	Defnyddir amrywiaeth o dechnegau'n effeithiol i gwblhau tasgau penodol. Mae deilliannau o fewn lefelau goddefiant manylebau ac fe'u cyflawnir yn annibynnol
	MPA3.2 Rhoi arferion iechyd a diogelwch ar waith wrth gwblhau tasgau adeiladu	Rhoddir arferion iechyd a diogelwch ar waith o dan gyfarwyddyd	Rhoddir arferion iechyd a diogelwch ar waith i gwblhau tasgau adeiladu. Efallai y bydd angen rhywfaint o arweiniad ac ymyrraeth		
	MPA3.3 Gwerthuso ansawdd y dasg adeiladu	Nodir lle mae tasgau adeiladu yn bodloni gofynion	Caiff ansawdd tasgau adeiladu eu gwerthuso. Mae dyfarniadau'n dangos rhywfaint o resymu ac ystyrir meini prawf y fanyleb a llwyddiant, ond ni cheir cydbwysedd	Caiff ansawdd tasgau adeiladu eu gwerthuso. Mae dyfarniadau'n rhesymegol ac ystyrir meini prawf y fanyleb a llwyddiant i'r un graddau	

Asesu

Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

Pennu tasgau:

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf ar gyfer ei ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Bydd yr aseiniad enghreifftiol yn gofyn i'r dysgwyr ddangos eu sgiliau yn nhair o'r technegau a nodir yng nghynnwys yr uned. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall y canolfannau eu haddasu i gyfateb i'r anghenion sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu. Felly, bydd yr aseiniad enghreifftiol yn cyflwyno scenario sy'n gofyn am ddefnyddio tair techneg ond bydd yn galluogi canolfannau i addasu'r senario er mwyn adlewyrchu'r technegau a addysgwyd.

Cyflawni tasgau:

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Mae'n rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfle teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf marcio ac sy'n briodol ar gyfer yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir cyfarwyddiadau ar oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir gwybodaeth am ble y mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Y diben yw rhoi canllawiau ychwanegol i'r consortia i'w helpu i reoli'r dasg asesu.

Marcio tasgau:

Mae'n rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu'r dysgwyr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y cyflawnwyd y maen prawf asesu gan y dysgwr. Bydd briff yr aseiniad enghreifftiol yn cynnwys manyleb sy'n ymgorffori'r lefelau goddefiant a ganiateir wrth gwblhau'r tasgau. Bydd yr aseiniad enghreifftiol hefyd yn cynnwys canllawiau i ganolfannau ar y lefel goddefiant sydd ei hangen i fodloni'r bandiau marcio ar gyfer y technegau a'r sgiliau penodol a asesir. Gan y bydd hyn yn amrywio yn ôl y technegau a'r sgiliau a asesir, bydd yr aseiniad enghreifftiol hefyd yn darparu canllawiau ar sut y gall canolfannau bennu lefelau goddefiant derbyniol o fewn unrhyw aseiniad a addasir.

Canllawiau Cyflwyno

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gallir cyflawni hyn:

- Byddai dosbarthiadau meistr gan brentisiaid sy'n gweithio gyda chyflogwyr lleol yn galluogi'r dysgwyr i weithio gyda phobl ifanc, a all rannu eu profiadau o weithio yn y diwydiant adeiladu yn ogystal â meithrin sgiliau gan y rhai a gyflogir o fewn y sector a thynnu eu sylw at botensial prentisiaethau fel dewis gyrfa
- Gweithio ar broiectau a bennir gan bartneriaid diwydiant, gan ddefnyddio gwybodaeth dechnegol a ddefnyddir ar y safle ganddynt. Gallai hyn gynnwys cwblhau archebion neu ddogfennaeth debyg
- Ymweld â masnachwyr adeiladu lleol er mwyn archwilio gwahanol fathau o ddefnyddiau a dewis y defnyddiau priodol i fodloni gofynion technegol. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i weld a chyffwrdd â defnyddiau a all fod yn ddrud neu'n fregus i weithio gyda hwy mewn amgylchedd dysgu.

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio ar gyfer dysgwyr i ddehongli gwybodaeth dechnegol er mwyn cynllunio'r gwaith o adnewyddu adeilad, gan ystyried materion iechyd a diogelwch a defnyddio sgiliau a thechnegau priodol er mwyn cyflawni'r gwaith.

Enghraifft 1

Mae angen adeiladu ramp anabl newydd ar gyfer canolfan gymunedol lleol gan fod yr hen un pren wedi pydru ac nid yw'n ddiogel. Rhaid codi wal sy'n ddigon cryf fel caeedydd craidd caled ac yna wyneb concrid drosto. Hefyd mae angen iddo fod yn ddigon cryf i osod canllaw. Caiff y dysgwyr wybodaeth dechnegol ar ffurf darluniadau. Gofynnir iddynt nodi a chyfrifo gofynion o ran adnoddau, gan weithio mewn grwpiau i gynllunio'r broses. Bydd cynrychiolydd o'r ganolfan gymunedol yn negodi'r meini prawf llwyddiant i'w defnyddio at ddibenion gwerthuso ar ôl cwblhau'r gwaith gyda hwy. Bydd y dysgwyr yn nodi'r defnyddiau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu ac yn cysylltu â masnachwyr adeiladu lleol a chwmnïau llogi lleol i noddi'r defnyddiau, offer a chyfarpar. Bydd y fath gamau yn meithrin sgiliau cyfathrebu a negodi'r dysgwyr a hefyd yn eu cyflwyno i nifer o ddarpar gyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y dysgwyr yn cwblhau'r project ac yn trafod y canlyniad gyda'r cynrychiolydd o'r ganolfan gymunedol.

Enghraifft 2

Mae ysgol babanod lleol wedi codi cyfleuster storio newydd yn ddiweddar ar gyfer teganau, beiciau ac ati. Dyluniwyd yr adeilad newydd gan gwmni penseiri lleol ac mae wedi darparu copïau o'r wybodaeth dechnegol a roddwyd i'r contractwyr. Bydd y dysgwyr yn dehongli'r wybodaeth a roddwyd er mwyn nodi'r defnyddiau sydd eu hangen a'r meini prawf llwyddiant a ddefnyddiwyd. Yna bydd y dysgwyr yn ymweld â'r ysgol er mwyn cynnal arolygiad, ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, gan wneud dyfarniadau yn erbyn y meini prawf llwyddiant a bennwyd ganddynt. Bydd hyn yn meithrin eu sgiliau gwerthuso eu hunain yn ogystal â'u gallu i ddehongli gwybodaeth dechnegol. Bydd hefyd yn galluogi'r dysgwyr i ryngweithio â darpar gyflogwyr yn y dyfodol. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr weithio gyda masnachau eraill er mwyn cwblhau'r dasg.

Enghraifft 3

Byddai hosbis yn hoffi cael barbeciw wedi'i wneud o frics ar ei dir ar gyfer digwyddiadau codi arian. Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir fod yn gynaliadwy a chyd-fynd â'r adeileddau presennol. Ni fyddai brics newydd yn gweddu i'r hyn sydd yno eisoes felly bydd angen dod o hyd i frics a mortar calch wedi'u hadfer. Bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn cyfrifo'r hyn fyddai ei angen i gwblhau'r dasg ac yn ymweld â iardiau adfer lleol er mwyn chwilio am ddefnyddiau. Maent yn dylunio ac yn adeiladu'r barbeciw.

Gwneud Cysylltiadau

Mae'r enghreifftiau o sefydliadau y gellid cysylltu â hwy am help yn cynnwys:

- Masnachwyr adeiladu
- Penseiri
- Cwmnïau llogi
- Iardiau adfer

Uned 3

Cynllunio projectau adeiladu

Cod cofrestriad uned CBAC 9813

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a diben

Drwy'r uned synoptig hon, bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd wrth feithrin sgiliau ymarferol a gofynion iechyd a diogelwch prosesau adeiladu ac yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gynllunio projectau datblygu amgylchedd adeiledig syml.

Cyflwyniad i'r Uned

Pwy sy'n gwneud beth wrth adnewyddu adeilad, codi adeilad newydd neu wella amgylchedd adeiledig? Pa mor hir y mae project adeiladu yn ei gymryd? A oes angen rheolwr project? Pwy yw rheolwr project? Beth a all atal project adeiladu rhag bod yn llwyddiannus?

Gall projectau adeiladu amrywio o adnewyddu ystafell ymolchi i ddatblygu tref neu briffordd newydd. Mae angen cynllunio pob project. Bydd angen Rheolwr Project ar rai projectau gyda sawl aelod o staff ynghlwm wrth waith cynllunio a monitro dros gyfnod o fisoedd neu flynyddoedd. Efallai y bydd projectau llai, fel gwaith adnewyddu, ond yn cynnwys un neu ddau o bobl drwy gydol y broses. Mae'r prosesau a ddilynir ganddynt yr un peth. P'un a ydych yn gweithio i gwmni adeiladu mawr neu fasnachwr hunangyflogedig, mae gwybodaeth am reoli project a'r sgiliau sy'n mynd law yn llaw â hynny yn hanfodol er mwyn sicrhau bod projectau adeiladu yn llwyddo.

Drwy'r uned hon byddwch yn dysgu am gwahanol fathau o swyddi yn y sector adeiladu a sut maent yn cyfrannu at brojectau llwyddiannus. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth o'r prosesau a ddilynir gan bobl sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu sy'n sicrhau bod projectau'n llwyddiannus. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych wedi'u meithrin wrth gyflawni tasgau adeiladu ymarferol ac ystyried diogelwch a diogeledd prosesau adeiladu, ynghyd â sgiliau cynllunio a ddatblygwyd drwy'r uned hon, fel eich bod yn gallu cynllunio projectau adeiladu.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
DD1 Gwybod pa rolau sydd ynghlwm wrth gyflawni projectau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	MPA1.1 Disgrifio gweithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu	Y rhai dan sylw - Tîm y cleient (cleient, pensaer, peiriannydd, syrfêwr meintiau, rheolwr project, dylunydd) - Tîm y contractwr (adeiladwr/peiriannydd safle, goruchwyliwr safle, swyddog diogelwch, masnachwyr, is-contractwyr arbenigol) - Personél statudol (arolygydd adeiladu, cynllunydd tref, arolygydd iechyd y cyhoedd) - Cyffredinol (gweinyddydd, swyddog cyllid, swyddog cyswllt cyhoeddus, swyddog prynu/caffael, arlwy, diogeledd) Projectau adeiladu - Adnewyddu - Estyniadau
	MPA1.2 Disgrifio cyfrifoldebau'r sawl sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu	
	MPA1.3 Disgrifio allbynnau'r sawl sydd ynghlwm wrth gyflawni projectau adeiladu	
DD2 Deall sut y cyflawnir projectau datblygu amgylchedd adeiledig	MPA2.1 Disgrifio'r prosesau a ddefnyddir mewn projectau datblygu amgylchedd adeiledig	Prosesau - Cynllunio (dylunio, cynllunio project, caffael) - Adeiladu (safle diogel, clirio safle, tanadeiledd, aradeiledd) - Trosglwyddo i gleient (comisiynu, trosglwyddo) - Cynnal a chadw
	MPA2.2 Cyfrifo adnoddau i fodloni gofynion ar gyfer projectau datblygu amgylchedd adeiledig	Cyfrifo - Arwynebedd - Cyfaint - Canrannau - Graddfeydd - Gwerth gorau - Lefelau goddefiant - TAW - Pris tendr Adnoddau - Peiriannau - Llafur - Defnyddiau

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>	
	MPA2.3 Asesu effaith bosibl ffactorau ar lwyddiant project	Ffactorau - Mewnol e.e. diffyg personél allweddol cymwys ac ardystiedig, cael gafael ar gyllid, diogeledd - Allanol e.e. cosbau, amodau tywydd
	MPA2.4 Dehongli ffynonellau gwybodaeth	Ffynonellau gwybodaeth - Darluniadau - Catalogau - Taenlenni - Rhestrau defnyddiau cyflenwyr - Manylebau
DD3 Gallu cynllunio projectau datblygu amgylchedd adeiledig	MPA3.1 Rhoi'r prosesau i'w dilyn mewn trefn	Prosesau - Cynllunio - Adeiladu - Trosglwyddo
	MPA3.2 Neilltuo amser i brosesau	
	MPA3.3 Defnyddio adnoddau cynllunio project	Adnoddau cynllunio project - Project - Siartiau Gantt - Taenlenni
	MPA3.4 Pennu lefelau goddefiant project	Lefelau goddefiant project - Amser - Cost

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Llwyddiant Lefel 1	Llwyddiant Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Rhagoriaeth Lefel 2
DD1 Gwybod pa rolau sydd ynghlwm wrth gyflawni projectau adeiladu	MPA1.1 Disgrifio gweithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth projectau adeiladu	Amlinellu'n gyffredinol weithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu	Disgrifio gweithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol, y mae'r rhan fwyaf yn berthnasol	Disgrifio'n fanwl weithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol, y mae'r rhan fwyaf yn berthnasol	Disgrifio'n fanwl weithgareddau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol
	MPA1.2 Disgrifio cyfrifoldebau'r sawl sydd ynghlwm wrth projectau adeiladu	Amlinellu'n gyffredinol gyfrifoldebau'r sawl sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu	Disgrifio cyfrifoldebau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol, y mae'r rhan fwyaf yn berthnasol		
	MPA1.3 Disgrifio allbynnau'r sawl sydd ynghlwm wrth projectau adeiladu	Amlinellu'n gyffredinol allbynnau'r sawl sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu	Disgrifio allbynnau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol	Disgrifio'n fanwl allbynnau'r sawl sydd ynghlwm wrth broject adeiladu penodol	
DD2 Deall sut y caiff projectau datblygu amgylchedd adeiledig eu cyflawni	MPA2.1 Disgrifio'r prosesau a ddefnyddir mewn projectau datblygu amgylchedd adeiledig	Amlinellu'n gyffredinol y prosesau a ddefnyddir mewn projectau datblygu amgylchedd adeiledig	Disgrifio'r prosesau a ddefnyddir mewn project datblygu amgylchedd adeiledig, y mae'r rhan fwyaf yn berthnasol		
	MPA2.2 Cyfrifo adnoddau i fodloni gofynion projectau datblygu amgylchedd adeiledig	Dengys cyfrifiadau y bu rhywfaint o ystyriaeth ar gyfer bodloni gofynion project. Mae canlyniadau rhai cyfrifiadau yn gywir	Mae'r cyfrifiadau yn ystyried adnoddau i fodloni gofynion projectau datblygu amgylchedd adeiledig. Gall fod rhai mân hepgoriadau. Mae canlyniadau'r cyfrifiadau yn gywir ar y cyfan	Mae'r cyfrifiadau'n ystyried adnoddau i fodloni gofynion projectau datblygu amgylchedd adeiledig. Mae canlyniadau'r cyfrifiadau yn gywir ar y cyfan	

		Bandiau perfformiad			
Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Llwyddiant Lefel 1	Llwyddiant Lefel 2	Teilyngdod Lefel 2	Rhagoriaeth Lefel 2
	MPA2.3 Asesu effaith bosibl ffactorau ar lwyddiant project	Amlinellu'n gyffredinol, gyda pheth rhesymu, effaith bosibl ffactorau ar lwyddiant project	Asesu effeithiau posibl ffactorau ar lwyddiant project. Ystyrir amrywiaeth gyfyngedig o ffactorau yn erbyn meini prawf llwyddiant a nodwyd. Rhywfaint o resymu'n perthyn i dystiolaeth a chynnwys yn briodol i broject penodol	Asesu effeithiau posibl amrywiaeth o ffactorau ar lwyddiant project. Mae'r rhan fwyaf o dystiolaeth wedi'i rhesymu'n dda ac yn berthnasol i feini prawf llwyddiant project a nodwyd	Asesu, gyda rhesymu clir a manwl, effeithiau posibl amrywiaeth o ffactorau ar feini prawf llwyddiant project a nodwyd
	MPA2.4 Dehongli ffynonellau gwybodaeth	Defnyddir amrywiaeth gyfyngedig o wybodaeth berthnasol o amrywiaeth cyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth	Defnyddio gwybodaeth berthnasol yn bennaf o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth		
DD3 Gallu cynllunio projectau datblygu amgylchedd adeiledig	MPA3.1 Rhoi'r prosesau i'w dilyn mewn trefn	Caiff amrywiaeth o brosesau eu rhoi mewn trefn. Gall fod hepgoriadau neu wallau sylweddol	Caiff amrywiaeth o brosesau priodol eu rhoi mewn trefn. Gall fod rhai mân wallau neu hepgoriadau	Caiff amrywiaeth o brosesau priodol eu rhoi mewn trefn resymegol	
	MPA3.2 Neilltuo amser i brosesau	Caiff amser ei neilltuo o fewn lefelau goddefiant derbyniol i'r rhan fwyaf o brosesau	Caiff amser ei neilltuo'n gywir i'r rhan fwyaf o brosesau		
	MPA3.3 Defnyddio adnoddau cynllunio project	Defnyddir adnoddau cynllunio project priodol gydag arweiniad er mwyn dangos cynllun project yn effeithiol	Defnyddir adnoddau cynllunio project priodol yn effeithiol er mwyn dangos cynllun project. Gall fod rhai gwallau yn y defnydd o feddalwedd. Defnyddir adnoddau cynllunio project gyda rhywfaint o gyfarwyddyd neu ymyrraeth	Defnyddir adnoddau cynllunio project priodol yn effeithiol er mwyn dangos cynllun project yn glir. Defnyddir adnoddau cynllunio project gyda chyfarwyddyd neu ymyrraeth gyfyngedig	Defnyddir adnoddau cynllunio project priodol yn annibynnol ac yn effeithiol er mwyn dangos cynllun project yn glir ac yn fanwl
	MPA3.4 Pennu lefelau goddefiant	Pennir lefelau goddefiant ar gyfer y rhan fwyaf o brosesau. Gall fod rhai sy'n amhriodol.	Pennir lefelau goddefiant priodol ar gyfer y rhan fwyaf o brosesau		

Asesu

Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

Pennu tasgau:

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf ar gyfer ei ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall y canolfannau eu haddasu i gyfateb i'r anghenion sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

Cyflawni tasgau:

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Mae'n rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfle teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf marcio ac sy'n briodol ar gyfer yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir gwybodaeth am ble y darperir goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Y diben yw rhoi canllawiau ychwanegol i'r consortia i'w helpu i reoli'r dasg asesu.

Marcio tasgau:

Mae'n rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu'r dysgwyr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y cyflawnwyd y maen prawf asesu gan y dysgwr.

Canllawiau Cyflwyno

Sicrhau bod yr addysgu yn berthnasol yn alwedigaethol

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Gweithio ar broiectau a bennir gan bartneriaid diwydiant, gan ddefnyddio gwybodaeth dechnegol a ddefnyddir ganddynt ar y safle. Gallai hyn gynnwys cwblhau archebion neu ddogfennaeth debyg
- Ymweld â masnachwyr adeiladu lleol er mwyn archwilio gwahanol fathau o ddefnyddiau, gan ddewis y defnyddiau priodol i fodloni gofynion technegol. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i weld a chyffwrdd â defnyddiau a all fod yn ddrud neu'n fregus i weithio gyda hwy mewn amgylchedd dysgu
- Dosbarthiadau meistr gan y rhai sydd ynghlwm wrth waith rheoli project ar ddefnyddio meddalwedd rheoli project, datblygu cynlluniau project ar gyfer project adeiladu realistig a chredadwy.

Isod ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella dealltwriaeth y dysgwyr o'r broses gosod brics a'i gwahanol ddefnyddiau.

Enghraifft 1

Bydd y dysgwyr yn gweithio gyda chwmni adeiladu sydd ynghlwm wrth project adnewyddu cymunedol. Cânt ddigon o wybodaeth i lunio cynllun cychwynnol. Yna caiff y dysgwyr wybodaeth sy'n dangos gweithgareddau gwirioneddol ac maent yn ei defnyddio i nodi ffactorau a effeithiodd ar y cynllun a'r camau a gymerwyd i ymateb i'r ffactorau hyn.

Enghraifft 2

Mae pensaer yn rhoi gwybodaeth ddylunio i'r dysgwyr am project adeiladu newydd bach. Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth gan ddarpar gyflenwyr i nodi ffynonellau defnyddiau a chostau posibl. Byddant hefyd yn pennu amserlen ar gyfer defnyddio'r adnoddau ac yn cyflwyno llif arian parod rhagamcanol ar gyfer y project. Mae'r pensaer yn rhoi adborth i'r dysgwyr, gan gynnwys eu disgwyliadau o ran costau a chyllideb.

Enghraifft 3

Caiff y dysgwyr wybodaeth gan ddarpar gleient am gynlluniau i ehangu eiddo busnes. Bydd y dysgwyr yn nodi'r prosesau a'r personél sydd eu hangen i gwblhau'r project ac yn cynhyrchu cynllun gweithgarwch. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno eu cynlluniau i gynrychiolwyr y cleient, gan gynnwys manylion ffactorau a allai effeithio ar lwyddiant.

Gwneud Cysylltiadau

Mae'r enghreifftiau o sefydliadau a allai ddarparu cymorth yn cynnwys:

- Masnachwyr adeiladu
- Penseiri
- Cwmni llogi
- Iardiau adfer

7 GWEITHDREFNAU COFRESTRU

Bydd Cymwysterau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig ar gael i'w hardystio o fis Mehefin 2015.

Wedi hynny, bydd pob cymhwyster ar gael i'w ardystio bob mis Mehefin. Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer cyfres mis Mehefin erbyn 21 Chwefror fan bellaf.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll unedau a asesir yn fewnol ac a asesir yn allanol, a'r radd orau fydd yn cael ei defnyddio wrth agregu.

Os bydd ymgeiswyr am gofrestru am unrhyw uned wedi'i hasesu'n fewnol am y trydydd tro, wrth agregu'r radd newydd **ni ellir** defnyddio **unrhyw ganlyniadau** o unedau a safwyd yn flaenorol. Felly, rhaid sefyll pob uned yn y cymhwyster eto.

Os bydd ymgeiswyr am gofrestru am unrhyw uned wedi'i hasesu'n allanol am y pedwerydd tro, wrth agregu'r radd newydd **ni ellir** defnyddio **unrhyw ganlyniadau** o unedau a safwyd yn flaenorol. Felly, rhaid sefyll pob uned yn y cymhwyster eto.

Cofrestriadau ar gyfer uned

Rhaid cofrestru cais am unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol a nodir ar bob uned o'r fanyleb.

Bydd yr uned a asesir yn allanol yn gofyn i ganolfannau gwblhau'r canlynol cyn ac yn ystod yr arholiad:

1. Gosod meddalwedd SecureAssess.
2. Sicrhau bod y feddalwedd yn gweithio.
3. Defnyddir codallwedd sy'n unigryw i'r ymgeisydd i sefyll yr arholiad. Gellir argraffu'r rhain 3-5 diwrnod cyn yr arholiad a'u storio'n ddiogel.
4. Os bydd angen mwy o amser ar ymgeiswyr, dim ond ar ôl i'r ffenestr arholi agor a chyn i'r ymgeisydd fewngofnodi ei godallwedd y gellir ei ychwanegu. Bydd CBAC yn eich hysbysu am y ffenestr arholi.
5. Pan fydd yr ystafell arholi yn barod, caiff ymgeiswyr fewngofnodi eu codauallwedd.
6. Caiff y goruchwyliwr ddechrau'r arholiad, cyhoeddi ysbaid yn ystod yr arholiad ac ailddechrau'r arholiad.
7. Bydd yr ymgeiswyr yn gorffen yr arholiad.
8. Rhaid i'r ganolfan gysylltu â CBAC er mwyn sicrhau bod pob sgript ar y sgrin wedi'i derbyn.

Rhoddir manylion llawn gweithdrefnau e-asesu CBAC ar wefan y pwnc.

Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses gyfuno (cyfnewid). Ni fydd y broses gyfuno yn digwydd yn awtomatig: rhaid cyflwyno'r cod perthnasol er mwyn i'r broses gyfuno fynd rhagddi.

8 SAFONI ALLANOL

Caiff cysondeb arferion a phenderfyniadau asesu ar draws canolfannau ei sicrhau drwy safoni sampl o waith yn allanol.

Ar gyfer pob cyfres y cofrestrir dysgwyr ar ei chyfer, bydd canolfannau yn cyflwyno sampl, yn ôl y fformiwla isod.

Cyfanswm yr ymgeiswyr	Gwaith i'w gyflwyno
1-10	Pob un
11-99	10 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth
100-199	15 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth
200+	25 i gynnwys sampl cynrychiadol o ymgeiswyr Lefel 1 Llwyddo, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod a Lefel 2 Rhagoriaeth

**Mae'r sgôr yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau a gaiff y dysgwyr am eu hunedau cyn eu troi yn radd cymhwyster (gweler yr Atodiadau ar gyfer enghreifftiau o gyfrifiadau).*

Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cadw portffolio pob dysgwr nas anfonwyd at y safonwr am gyfnod o ddeufis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer anfon samplau i'w Safoni. Gall CBAC ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau anfon pob portffolio i'w safoni a rhaid i ganolfannau allu cydymffurfio ar unwaith â chais o'r fath.

Dylai canolfannau gyflwyno sampl ar gyfer **pob uned** sy'n cynnwys:

- Briff yr aseiniad dan reolaeth a ddefnyddiwyd i bennu'r gweithgaredd asesu;
- Taflen gweithgareddau asesu dan reolaeth wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan yr aseswr er mwyn cadarnhau bod y rheolaethau ar gyfer yr uned, gan gynnwys dilysrwydd y dystiolaeth, wedi'u cymhwyso;
- Taflenni cofnodi marciau wedi'u cwblhau yn amlinellu pa fandiau perfformiad y mae'r dystiolaeth yn eu bodloni;
- Yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wrth gwblhau'r asesiad dan reolaeth, wedi'i hanodi'n briodol gan yr aseswr.

Bydd safonwyr yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau safonau cyson. Caiff dystiolaeth ei barnu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Pennu tasgau – a bennwyd tasgau o fewn y rheolaethau a bennwyd gan CBAC yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Cyflawni tasgau – a oes dystiolaeth i'r tasgau gael eu cwblhau o dan yr amodau dan reolaeth a bennwyd yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Bandiau perfformiad – a yw'r dystiolaeth yn ategu barn yr aseswr am ddysgwr yn erbyn safonau cenedlaethol?
- Anodi – a yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wedi'i hanodi'n briodol?
- Dilysu – a yw'n glir bod y dystiolaeth a gyflwynwyd wedi'i llunio'n ddilys gan y dysgwr?
- Safoni – a oes dystiolaeth o weithdrefnau safoni/sicrhau ansawdd mewnol effeithiol yn y ganolfan?

Amserlen

Rhaid cyflwyno samplau o waith i'w Safoni'n allanol, a dychwelyd y taflenni marcio cysylltiedig i CBAC erbyn 5 Mai ar gyfer cyfres mis Mehefin. Bydd angen i ganolfannau sicrhau y pennir dyddiadau cyflwyno mewnol yn ddigon cynnar er mwyn caniatáu ar gyfer dilysu, asesu a safoni.

Adborth

Canlyniad y broses safoni fydd naill ai derbyn neu ddiwygio penderfyniadau asesu canolfan. Darperir canllawiau hefyd ar y camau gweithredu y bydd angen eu cymryd cyn ailgyflwyno unedau penodedig fel rhan o gyfres safoni ddilynol.

Rhoddir adborth drwy gyfrwng adroddiad gan gymedrolwr y ganolfan ar gyfer pob teitl ardystio, gan gyfeirio at yr unedau a gyflwynwyd gan y ganolfan a bydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â'r meini prawf y cyfeiriwyd atynt uchod.

Darperir adroddiad y Prif Safonwr ar gyfer pob cyfres.

9 DYFARNU A CHYFLWYNO ADRODDIADAU

Gwneir dyfarniadau a chyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau Cymwysterau Lefel 1/2 CBAC mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig ym mis Awst bob blwyddyn.

Bydd **Tystysgrif Cymhwyster**, a gyflwynir yn ddiweddarach, yn cadarnhau'r canlynol:

- Teitl
- Lefel
- Gradd y cymhwyster (Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2, Rhagoriaeth Lefel 2 *)
- Teitlau'r unedau a gyfrannodd at y cymhwyster

10 MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Yn aml, fel rhan o gymwysterau ar y lefel hon, caiff amrywiaeth eang o gymwyseddau eu hasesu. Mae hyn yn digwydd gan mai cymwysterau cyffredinol ydynt ac, fel y cyfryw, maent yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth eang o alwedigaethau a chysiau lefel uwch.

Cynlluniwyd y fanyleb hon er mwyn cynnig mynediad teg i bawb ac er mwyn lleihau'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr â gofynion penodol. Fe'i hadolygwyd er mwyn nodi p'un a yw unrhyw gymhwysedd sy'n ofynnol gan y pwnc yn peri rhwystr posibl i unrhyw un o'r naw nodwedd gwarchodedig a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni nodwyd unrhyw un.

Disgwylir i ganolfannau ddarparu'n briodol ar gyfer galluedd, diddordebau ac anghenion dysgwyr unigol fel mater o drefn drwy'r canlynol:

- (a) y dewis o unedau a chymwysterau sydd ar gael,
- (b) y potensial i bersonoli asesiadau dan reolaeth.

Os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch defnyddio'r hyblygrwydd hwn sy'n rhan gynhenid o'r fanyleb er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, neu ynghylch defnyddio addasiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC. Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r asesiadau e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglwr Iaith Arwyddion, sef Iaith Arwyddion Prydain neu Iaith Arwyddion Iwerddon. Am y rheswm hwn, prin iawn fydd yr ymgeiswyr a gaiff eu hatal yn llwyr rhag cymryd rhan yn unrhyw ran o'r asesiad. Ceir gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau *Regulations and Guidance - Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Considerations*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cydgyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

11 GWASANAETH AR ÔL Y CANLYNIADAU

Os bydd canolfan yn awyddus i herio canlyniad y broses safoni a/neu arholi, rhaid i bennaeth y ganolfan wneud hynny'n ffurfiol drwy hysbysu CBAC o fewn 21 diwrnod o gyhoeddi'r canlyniadau.

Caiff y sampl o waith a gyflwynir i'w chymedroli ei hadolygu gan safonwr nad oedd yn rhan o'r broses wreiddiol, a chaiff y ganolfan ei hysbysu o'r canlyniad.

Os na fydd y ganolfan yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad, gellir cyflwyno apêl i CBAC.

12 CODAU DOSBARTHU

Pennir cod dosbarthu cenedlaethol ar gyfer pob manyleb yn dynodi pa faes pwnc y mae'n gysylltiedig ag ef. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw TA. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol mai dim ond un radd (yr uchaf) fydd yn cyfrif at ddiben y Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau yn achos ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer mwy nag un cymhwyster â'r un cod dosbarthu.

Mae'n bosibl y bydd canolfannau am roi gwybod i ymgeiswyr, os byddant yn astudio dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau yn debygol iawn o ystyried mai dim ond un o'r ddau gymhwyster a gyflawnwyd ganddynt. Gall yr un peth fod yn berthnasol os bydd ymgeiswyr yn astudio dwy fanyleb â gwahanol godau dosbarthu ond lle mae cynnwys y ddwy fanyleb yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Os bydd gan ymgeiswyr unrhyw amheuan am eu cyfuniadau pwnc, dylent drafod hynny gyda'r sefydliad y maent yn dymuno mynd iddo cyn dechrau ar eu rhaglenni.

13 Y CWRICWLWM EHANGACH

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg

Disgwylir i'r dysgwyr wneud defnydd effeithiol o TGCh mewn ffyrdd sy'n briodol i'r cymwysterau hyn. Bydd cyfleoedd yn codi yn ystod gweithgareddau arferol yn yr ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

- defnyddio'r Rhynggrwyd fel ffynhonnell o dystiolaeth eilaidd;
- defnyddio meddalwedd prosesu geiriau i lunio dogfennaeth fel ffurflenni archeb ac asesiadau risg;
- defnyddio taenlenni i gyfrifo gofynion o ran adnoddau;
- defnyddio meddalwedd cynllunio project;
- defnyddio meddalwedd aml-gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth.

Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Er mwyn datblygu deilliannau gwyddoniaeth y gellir eu cymhwyso at unigolion, cymdeithasau a busnesau, mae angen i ddysgwyr ystyried safbwyntiau eraill, gan gynnwys cyflogwyr, cymunedau, llywodraethau a chynulleidfaoedd, ar ffurfiau ysgrifenedig ac ar lafar wedi'u cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Caiff y dysgwyr gyfleoedd i feithrin sgiliau beirniadol a dadansoddol wrth iddynt astudio materion diogelwch a diogeledd sy'n gysylltiedig â phrojectau adeiladu a chynllunio prosesau ac adnoddau sydd ynghlwm wrth brojectau adeiladu. Cânt hefyd gyfleoedd i fyfrio ar yr hyn y byddant yn ei ddarllen, eu profiad ehangach eu hunain, a phrofiad eraill, ar ffurf ysgrifenedig ac ar ffurf llafar. Fel rhan o drafodaethau a gwaith ysgrifennu yn yr ystafell ddosbarth, bydd yn ofynnol iddynt fyfrio ar amrywiaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol wrth drafod diogelwch a diogeledd a chynllunio projectau adeiladu.

Dinasyddiaeth

Mae cymwysiadau a goblygiadau adeiladu'r amgylchedd adeiledig mewn cymdeithas, sy'n rhan annatod o'r fanyleb hon, yn annog unigolion i ddatblygu agwedd gyfrifol at ddinasyddiaeth. Caiff dealltwriaeth bod gan unigolion gyfrifoldeb ar y cyd ei meithrin mewn perthynas â'r amrywiol faterion moesegol a gynhwysir yn y manylbau.

Rhydd y fanyleb gyfleoedd i'r dysgwyr feithrin sgiliau darllen a gwrando beirniadol a dadansoddol. Rhydd gyfleoedd iddynt hefyd fynegi a datblygu eu safbwyntiau wrth ysgrifennu a siarad, gan eu hannog ar yr un pryd i ystyried safbwyntiau eraill mewn ffordd feirniadol ac adeiladol. Mae'r gallu hwn i lunio barn hyddysg ac ystyrion yn sgil sy'n hanfodol wrth ddatblygu dinasyddiaeth unigol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn sail ar gyfer datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n holl bwysig i unigolion yn y byd ehangach.

Materion Amgylcheddol

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfleoedd helaeth i'r ymgeiswyr ddarllen am faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynllunio projectau adeiladu, prosesau cysylltiedig ac adnoddau, ysgrifennu amdanynt a'u trafod. P'un a fyddant yn ystyried amgylcheddau lleol, gwaredu gwastraff neu gynaliadwyedd, ceir cyfleoedd i feithrin ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a phynciau dadleuol.

Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Dylai athrawon ac ymgeiswyr bob amser fod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch sy'n deillio o waith yn y ganolfan a'r tu allan i'r ganolfan. Rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer unrhyw waith ymarferol p'un a gaiff ei wneud yn y labordy neu allan yn y maes. Mae'r manylebau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr feithrin sgiliau ac ymwybyddiaeth berthnasol o ran materion iechyd a Diogelwch, yn enwedig fel y maent yn gymwys i adeiladu'r amgylchedd adeiledig.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Mae'r dull a ddefnyddiwyd i lunio'r fanyleb yn addas ar gyfer creu cysylltiadau â meysydd astudio eraill. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddangos y dimensiwn Ewropeaidd ac mae'n gofyn i ddysgwyr ystyried y materion sy'n deillio o wahanol safbwyntiau.

Atodiad 1 Mapio Sgiliau

Sgiliau Personol, Dysgu a Meddwl (PLTS)

<i>PLTS</i>	<i>Uned 1</i>	<i>Uned 2</i>	<i>Uned 3</i>
Ymholwyr annibynnol	✓	✓	✓
Meddylwyr creadigol	✓	✓	✓
Meddylwyr myfyrgar	✓	✓	✓
Gweithwyr tîm	✓	✓	✓
Hunan reolwyr	✓	✓	✓
Cyfranogwyr effeithiol	✓	✓	✓

SGILIAU ALLWEDDOL A SGILIAU HANFODOL (CYMRU)

Cymhwyso rhif

	<i>Uned 1</i>	<i>Uned 2</i>	<i>Uned 3</i>
Deall data rhifol		✓	✓
Gwneud cyfrifiadau		✓	✓
Dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau		✓	✓

Cyfathrebu

	<i>Uned 1</i>	<i>Uned 2</i>	<i>Uned 3</i>
Siarad a gwrando	✓	✓	✓
Darllen	✓	✓	✓
Ysgrifennu	✓	✓	✓

TGCh

	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Defnyddio systemau TGCh	✓	✓	✓
Dod o hyd i wybodaeth, dethol a chyfnwid gwybodaeth, gan ddefnyddio	✓	✓	✓
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio TGCh	✓	✓	

Gwella Dysgu a Pherfformiad Unigol

	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Pennu targedau gan ddefnyddio gwybodaeth gan bobl briodol ac yn cynllunio sut i'w cyrraedd	✓	✓	✓
Yn cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu, gan ddefnyddio eich cynllun i helpu i gyrraedd targedau a gwella eich perfformiad	✓	✓	✓
Adolygu cynnydd a chyflwyno tystiolaeth o'ch cyflawniadau	✓	✓	✓

Datrys Problemau

	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Ystyried problem a nodi ffyrdd o'i datrys	✓	✓	
Cynllunio a gweithredu o leiaf un ffordd o ddatrys y	✓	✓	✓
Cadarnhau p'un a ddatryswyd y broblem ac adolygu eich dull o ddatrys	✓	✓	✓

Gweithio gydag eraill

	<i>Uned 1</i>	<i>Uned 2</i>	<i>Uned 3</i>
Cynllunio gwaith gydag eraill	✓	✓	✓
Ceisio datblygu cydweithrediad a chadarnhau eich cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt gennych	✓	✓	✓
Adolygu gwaith gydag eraill a chytuno ar ffyrdd o wella gwaith a wneir ar y cyd yn y dyfodol	✓	✓	✓

Atodiad 2 Mapio Cynnwys Cwricwlwm Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig¹

Deilliannau dysgu	Cynllunio projectau adeiladu	Sgiliau adeiladu ymarferol	Diogelwch a diogeledd ym maes adeiladu
Thema: Creu'r amgylchedd adeiledig			
2.9 Ystyried y prif rolau a'u cydberthynas â'i gilydd o fewn yr amgylchedd adeiledig ac ymchwilio i lwybrau gyrfa, cymwysterau a dilyniant nodweddiadol			
2.10 Nodi a defnyddio amrywiaeth o wybodaeth dechnegol a ddefnyddir wrth adeiladu'r amgylchedd adeiledig			
2.11 Ymchwilio i amrywiaeth o ddulliau a thechnegau a ddefnyddir wrth adeiladu gwaith daear, tanadeiledd, aradeiledd a gwaith allanol			
2.12 Nodi amrywiaeth o beryglon a risgiau a welir yn aml wrth adeiladu'r amgylchedd adeiledig			
2.13 Nodi a defnyddio arfer da o fewn technegau gwaith diogel			
2.14 Dewis a defnyddio amrywiaeth o offer, defnyddiau a chyfarpar diogelu personol i gyflawni gweithgareddau adeiladu			

¹ Daw Cynnwys y Cwricwlwm Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig o 'Construction and the Built Environment: How University Technical Colleges can deliver best practice'. Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Baker Dearing ac fe'i cefnogwyd gan Golegau Technegol Prifysgol, CITB SgiliauAdeiladu a Sefydliad The Edge.

Atodiad 3 Rhestr termau

A 3.1 Deilliannau dysgu gwybodaeth

Caiff deilliannau dysgu gwybodaeth eu hasesu i bob diben wrth i ddysgwyr gyflwyno 'ffeithiau' sefyllfa.

Gwahaniaethwyr

Yn aml, nodir gwahaniaethwyr mewn perfformiad gan ddefnyddio'r termau canlynol:

Cywirdeb

A yw'r hyn y maent yn ei honni fel ffaith mewn gwirionedd yn gywir?

Ehangder/amrediad

A oes disgwyliad o ehangder yn hytrach na dyfnder h.y. dylent feddu ar wybodaeth arwynebol am lawer o ffeithiau yn hytrach na gwybodaeth fanwl am nifer fach o ffeithiau.

Eglurder

Mae hyn yn aml yn gysylltiedig â sgiliau cyfathrebu ond gallwch ragweld bod rhywun sy'n gwybod rhywbeth mewn gwirionedd, sy'n gwybod sut i drefnu'r hyn y mae'n ei ddweud ac nad yw'n cymysgu hyn â gwybodaeth sy'n anghywir neu'n amherthnasol. Mae eu cyfathrebu yn glir ac yn drefnus. Nid ydynt yn cymysgu gwybodaeth â datganiadau anghywir neu amherthnasol. Mae pobl sy'n gwag-siarad yn dueddol o fod yn llai sicr o'u gwybodaeth na'r rheini a all fod yn gryno ac yn bendant.

Dyfnder/manylion

A ydynt wedi rhoi digon o fanylion i gadarnhau eu bod mewn gwirionedd yn gwybod rhywbeth?

Perthnasedd /cymhwysiad

A oes yn rhaid i'r ffeithiau fod yn berthnasol i'r sefyllfa? Ai damcaniaeth bur ydyw neu a ydych yn awyddus iddynt ddangos gwybodaeth drwy ddiystyru'r hyn nad yw'n berthnasol yn eu barn hwy.

Berfau Gorchymyn

Gall ystyried y berfau gorchymyn a ddefnyddir yn y maen prawf asesu helpu i benderfynu pa wahaniaethwyr y gellid eu defnyddio. Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â gwybodaeth.

Disgrifiwch – creu darlun mewn geiriau, rhoi gwybodaeth gan ddefnyddio manylion. Gan ddefnyddio'r gyfatebiaeth hon, byddech yn disgwyl rhywfaint o fanylder yn yr hyn a wyddant. Gellid ehangu disgrifio i deilyngdod a/neu ragoriaeth, ond gallai hefyd fod yn berthnasol i lwyddiant yn unig. Os caiff ei ehangu i ragoriaeth, yna fwy na thebyg y bydd angen nifer o amodau.

Diffiniwch – datgan ystyr term. Mae'n annhebygol y gellid ehangu hyn i lefel teilyngdod neu ragoriaeth.

Nodwch – cydnabod, gwahaniaethu a sefydlu beth yw rhywbeth. Mae'n annhebygol y gellid ehangu hyn i lefel rhagoriaeth. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethu yn ymwneud â pherthnasedd a chywirdeb.

Dangoswch – rhoi esiamplau, disgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau. Gellid ehangu hyn i lefel teilyngdod a rhagoriaeth.

Amlinellwch – cynllun neu adroddiad bras, cyffredinol neu ragarweiniol o rywbeth sy'n canolbwyntio ar y prif nodweddion ac yn anwybyddu'r manylion, e.e. rhestr o'r prif bwyntiau a gynhwyswyd neu a gaiff eu cynnwys mewn araith. Mae hyn yn annhebygol o gael ei ehangu i lefel teilyngdod a rhagoriaeth. Daw amlinelliad da yn ddisgrifiad!

Datganwch – gwneud haeriad. Ni fyddai hyn yn ehangu y tu hwnt i lwyddiant.

Crynowch - rhoi fersiwn byrrach o rywbeth a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd, gan gyfeirio at y prif bwyntiau.

A 3.2 Deilliannau dysgu deall

Caiff deilliannau dysgu deall eu hasesu i bob diben wrth i'r dysgwr ddangos sut y maent wedi cymhwyso eu gwybodaeth drwy resymu effeithiol.

Gwahaniaethwyr

Eglurder

A yw'r rhesymu yn amlwg neu'n ymhlyg? Lle ceir rhesymu ymhlyg, rhaid dehongli lefel y ddealltwriaeth. Mae rhesymu amlwg yn dangos yn eglur bod y ddealltwriaeth yn bodoli.

Dyfnlder

Pa mor fanwl yw'r rhesymu?

Cyfiawnhad

A yw eu dadl a'u rhesymu wedi eich darbwylo?

Cadarnhad

A yw'r dysgwr wedi defnyddio tystiolaeth i ategu unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt?

Dilysrwydd

A yw'r rhesymu yn ddilys? A yw'n gywir? A yw'n seiliedig ar gyd-destun y sefyllfa? A yw'n seiliedig ar ddamcaniaeth?

Berfau Gorchymyn

Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â deall.

Dadansoddwch – archwilio'n fanwl, dadelfennu, archwilio cydberthnasau.

Aseswch – llunio barn am ansawdd neu werth rhywbeth

Cymharwch – esbonio nodweddion tebyg a nodweddion gwahanol

Gwerthuswch – llunio barn yn erbyn meini prawf, yn seiliedig fel arfer ar ddadansoddiadau a data

Esboniwch – rhoi rhesymau

Cyfiawnhewch – darbwylo rhywun o ddilysrwydd dadl, er mwyn dilysu cynnig

A 3.3 Deilliannau dysgu deall

Mae deilliannau dysgu 'gallu' yn canolbwyntio ar y broses o feithrin sgiliau dysgwyr. Maent yn cynnwys gweithgareddau ymarferol, uniongyrchol. Caiff meini prawf asesu cysylltiedig yn aml eu hasesu drwy lunio tystiolaeth ddarfodedig, megis tystiolaeth gan dystion a chofnodion arsylwi.

Gwahaniaethwyr

Cywirdeb

A wnaethant lwyddo i gael gfael ar wybodaeth gywir drwy ddefnyddio'r sgiliau?

Addasu

A allant ddefnyddio'r sgil mewn cyd-destunau gwahanol?

Priodol

A ddefnyddiwyd y sgil yn briodol, gan ystyried y sefyllfa/lleoliad?

Hyder

Anodd iawn ei asesu gan mai teimlad cynhenid ydyw felly bydd yn anodd i'r aseswyr wneud penderfyniad. Fodd bynnag, fe'i defnyddir weithiau. Dylech ystyried petrusrwydd fel arwydd o ddiffyg hyder, felly gall rhwyddineb a chysondeb fod yn agweddau ar hyder.

Effeithiolrwydd

A wnaeth defnyddio'r sgil arwain at y deilliannau disgwyliedig?

Annibyniaeth

A lwyddodd y dysgwyr i arddangos y sgil heb gymorth nac arweiniad gan eraill?

Berfau Gorchymyn

Isod ceir diffiniadau o ferfau gorchymyn sy'n gysylltiedig â 'gallu'.

Cydweithredwch – gwneud cyfraniad at waith tîm, helpu aelodau'r tîm fel y bo angen

Cyfathrebwch – sicrhau y caiff gwybodaeth ei derbyn yn effeithiol

Arddangoswch – trefnu a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf diagramau

Triniwch – defnyddio adnodd/cyfarpar er mwyn sicrhau'r effaith ddymunol

Monitrwch – arsylwi a chofnodi gweithgareddau, gallai hefyd gynnwys sicrhau y cynhelir y cynnydd disgwyliedig

Cynhaliwch – cadw mewn cyflwr priodol

Cynlluniwch – trefnu amrywiaeth o gydrannau yn ddilyniant rhesymegol. Gallai hyn gynnwys amseriadau. Gallai hefyd gynnwys sut y cyflwynir y trefniant hwn.

Cyflwynwch – trefnu a chyfathrebu mewn ffordd y gellir ei dilyn a'i deall yn glir. Yn aml yn cyfeirio at sgiliau cyfathrebu llafar a gall gynnwys defnyddio gwybodaeth ategol.

Proseswch – defnyddio cyfres o gamau gweithredu i sicrhau canlyniadau

Cofnodwch – cael a storio data a gwybodaeth

Defnyddiwch – defnyddio rhywbeth at ddiben